# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU
# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU

## DYDDIAD 29 MAWRTH 2023

## PWNC

### CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC - 2023/24

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2023/24**

**RHESYMAU:**

Lluniwyd cynllun hyfforddi'r Bartneriaeth ar gyfer 2023/24 ac mae angen i'r Cydbwyllgor Llywodraethu ei gymeradwyo.


| **Awdur yr Adroddiad:** | **Swydd:** | **Rhif Ffôn: 01267 224160** |
|---|---|---|
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:** **CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

# DYDDIAD 29 MAWRTH 2023

## CYNLLUN HYFFORDDIANT PPC - 2023/24

## CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae'n bwysig bod unigolion yn meddu ar lefel 'briodol' o wybodaeth a dealltwriaeth o'r gweithgareddau sy'n berthnasol i'w dyletswyddau o fewn y Bartneriaeth, ac yn cynnal y lefel hwnnw. Mae gan y Bartneriaeth bolisi hyfforddiant penodol ac fe ellir ei weld ar wefan PPC.

Cyflwynwyd Holiadur Gofynion Hyfforddiant y Bartneriaeth i bob aelod o'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor ym mis Rhagfyr 2022, ac fe aseswyd yr ymatebion a gafwyd yn yr holiaduron a gwblhawyd wrth baratoi'r cynllun hyffordiant y Bartneriaeth ar gyfer 2023/24.

Lluniwyd y cynllun hyfforddiant hwn i ategu'r hyfforddiant Awdurdodau Cyfansoddol cyfredol, a bydd yn berthnasol i weithgareddau cyd-fuddsoddi'r Bartneriaeth. Mae'r hyfforddiant hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar fodloni anghenion hyfforddiant aelodau'r Gweithgor Swyddogion a'r Cydbwyllgor; fodd bynnag, gellid ei ymestyn i aelodau'r Pwyllgor Pensiwn, yn ogystal â chynrychiolwyr y Bwrdd Pensiwn, os yw'n berthnasol.

Bydd sesiynau hyfforddi 2023/24 yn cael eu cynnal bob chwarter a byddant yn ymdrin â'r pynciau a ganlyn:

- Gwybodaeth am Gynnyrch
- Adrodd
- Buddsoddi Cyfrifol
- Deall y Farchnad a Gofynion Rheoleiddio

| ADRODDIAD MANWL YNGHLWM? | OES |
|---|---|

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb<br>**OES** | Cyfreithiol<br>**DIM** | Cyllid<br>**DIM** | Materion Rheoli Risg<br>**DIM** | Goblygiadau Staffio<br>**DIM** |
|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Lluniwyd cynllun hyfforddiant a fydd yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

| |
|---|
| Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma |

| **Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth<br>Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:<br>MANYLIR AR Y RHAIN ISOD** | | |
|---|---|---|
| **Teitl y Ddogfen** | **Cyfeirnod Ffeil** | **Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN** |
| | | |